# Gwybodaeth i Gleifion
# Cyngor Ôl-bigiad

# Adran Podiatreg ac Orthoteg

Ar ôl eich pigiad, arhoswch yn yr ardal aros am 30 munud; os nad ydych yn teimlo'n dda, galwch aelod o staff.

Os oes Anesthetig Lleol wedi cael ei ddefnyddio yn eich pigiad, ni ddylech yrru am 2-3 awr.

Bydd rhaid i chi leihau eich lefel gweithgarwch am 2 ddiwrnod er mwyn rhoi cyfle i'r Corticosteroid weithio.

Os oes gennych bryderon ynglŷn â'ch pigiad, cyfeiriwch at eich taflen wybodaeth cyn-asesu neu cysylltwch â'r Adran Podiatreg trwy ffonio 0163 615225 neu risca.podiatry@wales.nhs.uk

**Os bydd argyfwng ar ôl eich pigiad, ceisiwch gyngor meddygol ar unwaith a gwnewch yn siŵr fod gennych yr wybodaeth ganlynol.**

Enw'r Claf: ……………………………..

CRN ………………………………………..

**Manylion y pigiad**

Y cyffur a roddwyd ……………………………  Dyddiad....................................

Dogn ……………………………………..

Lleoliad y pigiad ………………………………..

**Rhoddwyd gan:**

Enw'r clinigwr: Llythrennau bras ……………………………..  Llofnod ……………………

Teitl proffesiynol: ………………………………….

**Beth ddylwn i ei wneud ar ôl y pigiad?**
Rhaid i chi orffwys y cymal poenus neu'r feinwe feddal am 2 ddiwrnod ar ôl y pigiad. Mae hyn yn golygu y gallwch symud o gwmpas **ond peidiwch â gorwneud hi.** Mae hyn yn galluogi rhinweddau gwrthlidiol y cyffur i wneud eu gwaith, aros yn eu lle a hefyd atal anaf pellach. Os ydych yn parhau i orddefnyddio eich cymal neu'ch meinwe feddal yn ystod yr amser hwn, bydd yn cael effaith andwyol a gallai wneud y pigiad yn llai effeithiol.

**A oes unrhyw sgil effeithiau i'r driniaeth hon?**

**Pigiad** – fel gydag unrhyw dechneg fewnlifol, mae bob amser perygl o haint. Mae'r posibilrwydd o hyn yn digwydd yn isel dros ben.

**Poen yn sgil Pigiad/Fflêr Steroid** – Gallwch brofi 1-2 ddiwrnod o anghysur cynyddol ar ôl y pigiad. Mae hyn yn normal. Mewn rhai achosion, gall hyn fod yn fflêr steroid gyda phoen yn dechrau 1-2 ddiwrnod ar ôl y pigiad gan bara tua 3 diwrnod. Os ydych yn poeni, cysylltwch â'r Adran Podiatreg i gael cyngor.

**Adwaith alergaidd** – Er bod hyn yn anghyffredin dros ben, mae'n bosibl cael adwaith alergaidd i'r feddyginiaeth a ddefnyddir yn y pigiad. Mae hyn wedi'i drafod yn fanwl yn eich sesiwn cyn-asesu.

**Afliwio yn y Croen** – Mae mân afliwio yn y croen o gwmpas lleoliad y pigiad yn gallu digwydd. Mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl â chroen mwy tywyll a chyda phigiadau arwynebol.

**Atroffi Braster** – Mae hyn yn ymddangos fel pant yn y croen sydd yn aml yn adfer ei hun ar ôl sawl mis.

**Sgil effeithiau dros dro eraill y gellir eu nodi:-**

Tarfu ar fislif
Gwres yn yr wyneb
Acne yn y rhai sydd eisoes yn tueddu i'w ddioddef

**Beth os wy'n ddiabetig?**
Sylwer y gellid tarfu dros dro ar eich lefelau siwgr gwaed am ychydig ddyddiau hyd at wythnos ar ôl y pigiad. Os nad ydych yn siŵr am sut i reoli hyn, ceisiwch gyngor gan eich meddyg teulu neu eich nyrs diabetes arbenigol.

**Sylwer:** Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon eraill ynglŷn â'r pigiad, trafodwch y rhain â'r podiatregydd.

**"This document is available in English /**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**